CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne Road ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**

**☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru**

DRAFT

**<u>COFNODION CYFARFOD ANARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG A GYNHALIWYD AR NOS IAU 23ain IONAWR 2023 YN SIAMBR Y CYNGOR AC AR ZOOM AM 7 P.M.</u>**

<u>Yn bresennol:</u> Y Cynghorwyr Rory Francis (Cadeirydd)
Alun Jones (Is-gadeirydd)
Mark Thomas
Dafydd Dafis
Linda Ann Jones
Ifor Roberts
Marc Lloyd Griffiths (ar Zoom)
Cai Gruffydd, Swyddog Ariannol Dros Dro (dros Zoom)
Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

**11584/1/23** **<u>Ymddiheuriadau</u>:** Y Cynghorwyr Morwenna Pugh
Eifiona Davies
Glyn Daniels

Ar ddechrau'r cyfarfod, mynegodd y Cynghorydd Mark Thomas amheuaeth ynglŷn ag a oedd y cyfarfod yn un cyfreithlon ai peidio, gan nad oedd yr holl bapurau wedi eu derbyn dri diwrnod clir cyn y diwrnod, gan ddweud nad oedd yn hapus gyda'r sefyllfa ac na fyddai, felly, yn pleidleisio ar y gyllideb a'r praesept.

**11585/1/23** **<u>Datgan Diddordeb</u>**

Datganodd y Cynghorydd Mark Thomas fuddiant mewn perthynas â'r compownd, gan ei fod yn ei rentu.

**11586/1/23** **<u>Materion Brys</u>**

Codwyd y mater o wasanaeth bws y T19 yn dod i ben, rhwng Blaenau Ffestiniog a Llandudno. Roedd y Cyngor Tref yn siomedig iawn o glywed y newyddion, a soniwyd bod deiseb wedi ei threfnu gan Janet Finch-Saunders, AS Aberconwy. Holodd y Cynghorydd Dafydd Dafis os oedd gan y Cyngor Tref gynrychiolydd trafnidiaeth.
**PENDERFYNIAD**: Cynigiodd y Cynghorydd Ifor Roberts ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis bod eitem yn cael ei dodi ar raglen cyfarfod llawn nesaf y Cyngor Tref, ar 13 Chwefror 2023, gyda’r Cynghorwyr i gyd yn gytûn.

**11587/1/23** **<u>Cais am Gefnogaeth Ariannol</u>**

Derbyniwyd cais gan Gymdeithas Ffermwyr Ifanc am gyfraniad ariannol.

**PENDERFYNIAD:** Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas, ac eiliodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths bod y Cyngor Tref yn rhoi £500 i’r Gymdeithas, gyda’r holl Gynghorwyr yn gytûn.

**11588/1/23** **<u>Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau 16 Ionawr 2023</u>**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 15eg Ionawr 2023.

Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas iddo holi yn y cyfarfod pam nad oedd y gwaith yn eitem 6 yn y cofnodion wedi ei wneud eisoes. Roedd hyn ar y rhestr waith ers misoedd bellach, a holodd pam nad oedd wedi cychwyn.

**PENDERFYNIAD:** Yn amodol ar ychwanegu’r uchod i’r cofnodion, cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis, ac eiliodd y Cynghorydd Ifor Roberts bod y cofnodion yn cael eu derbyn, gyda’r holl Gynghorwyr yn gytûn.

**11589/1/23** **<u>Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau 19 Ionawr 2023</u>**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 19 Ioanwr 2023.

Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas iddo ofyn am gopi o recordiad y cyfarfod ar y noson, a holi os oedd y cyfarfod yn gyfreithlon, gan nad oedd y papurau perthnasol oll wedi eu derbyn dri diwrnod clir cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** Yn amodol ar ychwanegu’r uchod, cynigiodd y Cynghorydd Alun Jones ac eiliodd y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y cofnodion yn cael eu derbyn, gyda’r holl Gynghorwyr yn gytûn.

**11590/1/23** **<u>PRAESEPT 2023-2024</u>**

Cyflwynodd y Swyddog Ariannol y ffigurau ar gyfer pennu cyllideb y Cyngor Tref a’r praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24, fel a ganlyn:

DRAFT

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | £0.00 | £7,350.00 | £4,430.92 | £4,905.92 | £2,444.08 | £7,350.00 |

| 11 Llochesi Bws / Bus Shelters | | 2022-2023 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Receipts | | | | | Payments | | | | |
| Code | Title | Praesept 22-23 | Actual | Tebygol | Gwahaniaeth | Praesept 23-24 (Drafft) | Praesept 22-23 | Actual | Tebygol | Gwahaniaeth | Praesept 23-24 (Drafft) |
| 47 | Glanhau / Cleaning | | | | | | £5,400.00 | £4,147.62 | £4,977.14 | £422.86 | £5,400.00 |
| 48 | Cynnal a Chadw / Maintenence | | £9,580.00 | | -£9,580.00 | | £1,000.00 | £8,319.00 | £8,319.00 | -£7,319.00 | £1,000.00 |
| | | | £9,580.00 | | -£9,580.00 | £0.00 | £6,400.00 | £12,466.62 | £13,296.14 | -£6,896.14 | £6,400.00 |

| 12 Praesept / Precept | | 2022-2023 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Receipts | | | | | Payments | | | | |
| Code | Title | Praesept 22-23 | Actual | Tebygol | Gwahaniaeth | Praesept 23-24 (Drafft) | Praesept 22-23 | Actual | Tebygol | Gwahaniaeth | Praesept 23-24 (Drafft) |
| 49 | Praesept / Precept | £230,000.00 | £230,000.00 | | £0.00 | | | | | | |
| | | £230,000.00 | £230,000.00 | | | £0.00 | | | | | £0.00 |

| Gwyl Haf | | 2022-2023 | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Receipts | | | | | Payments | | | | |
| Code | Title | Praesept 22-23 | Actual | Tebygol | Gwahaniaeth | Praesept 23-24 (Drafft) | Praesept 22-23 | Actual | Tebygol | Gwahaniaeth | Praesept 23-24 (Drafft) |
| 134 | Gwyl Haf | | | | | £0.00 | | | | | £1,000.00 |
| | CYFANSYMAU | £230,200.00 | £248,619.51 | £0.00 | -£18,419.51 | £4,805.00 | £246,955.00 | £145,816.35 | £168,065.69 | £78,889.31 | £342,767.64 |

Cododd y Cynghorydd Dafydd Davis fater cyfraniad pensiwn y cyngor, gan ddweud ei fod yn credu bod y canran yn rhy uchel. Trafodwyd llinell 1 – Cyflog y Clerc – hefyd, ac esboniodd y Swyddog Ariannol sut roedd y ffigwr yn cael ei ddangos fel yr oedd, a bod angen cymryd llinellau 2 a 4 – NI&PAYE, a Phensiwn – i ystyriaeth gyda'r llinell cyflog.

Dywedodd y Cynghorydd Linda Ann Jones yr hoffai gael hyfforddiant ar sut yn union roedd y gyllideb yn gweithio, a chytunodd yr aelodau y byddai hyn yn syniad da, ac y dylid gwneud ymholiadau i'r perwyl hwnnw.

Trafodwyd cronfeydd wrth gefn, gan benderfynu cadw costau gweithredu 6 mis yn y gronfa hon.

| | |
|---|---|
| Gwariant Cyllideb 23-24 | £342,767.64 |
| Incwm (heb praesept) Cyllideb 23-24 | £4,805.00 |
| Reserfau tebygol ar gychwyn 23-24 | £282,135.46 |
| Reserfau i'w cadw (costau 6 mis 23-24) | £171,383.82 |
| **Praesept 23-24** | **£227,211.00** |

**PENDERFYNIAD:** Cynigiodd y Cynghorydd Alun Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y gyllideb yn cael ei derbyn a bod y Cyngor Tref yn pennu praesept o £227,211.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-2024, gyda'r holl gynghorwyr yn gytûn, a hysbysu'r Cyngor Sir yn unol â hynny.

**11591/1/23** **<u>Cyfrifon i'w Talu</u>**

Cyflwynwyd rhestr taliadau i'w cymeradwyo gan y Cyngor:

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau I'w talu / Payments Due | | 23.01.23 | | | |
| Cyfarfod Anarferol / Extraordinary Meeting 23.01.23 | | | | | |
| Cyfrifon 2022-23 (I'w dalu/ To pay) | | | | | |
| **Dyddiad/Date** | **Cyflenwr / Supplier** | **Disgrifiad / Description** | **Cost** | **Dull talu / payment** | |
| 11/01/23 | Microsoft | Online Services | £10.80 | DD | A1 |
| 06/01/23 | Neuadd Ffestiniog | Clwb Ieuenctid | £40.00 | Ar-Lein | A2 |
| 16/12/22 | Huws Gray | Bit, scriws a cement | £31.10 | Ar-Lein | A3 |
| | Llafar Bro | Hysbysebion swyddi Hydref, Tachwedd , Rhagfyr a Ionawr | £64.00 | Ar-Lein | A4 |
| 13/01/23 | Gardencraft | Coed | £153.68 | Ar-Lein | A5 |
| 31/12/22 | Maldwyn Lloyd | Coed Nadolig | £360.00 | Ar-Lein | A6 |
| 17/01/23 | Viking | Ink a phapur | £401.11 | Ar-Lein | A7 |
| 30/07/21 | Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog | Llogi Ystafell | £430.00 | Ar-Lein | A8 |
| 06/12/21 | Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog | Llogi Ystafell | £200.00 | Ar-Lein | A9 |
| 06/05/22 | Neuadd Ffestiniog | Clwb Ieuenctid | £40.00 | Ar-Lein | A10 |
| | | | £ 1,730.69 | | |
| ARIAN I MEWN / INCOME | | | | | |
| | | Cyfanswm / Total | £0.00 | | |

Rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Cyllid dalu'r uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm

CADEIRYDD: ..........................................................

.

DRAFT